Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor nos Fercher, 17 Gorffennaf 2024, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms. J. McAlpine (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs. M. Blakely-Walker, Mrs. J. Evans, Ms R. Roberts, Miss S. Roberts, Ms. V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol

Mr. G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 10. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs. J. Chamberlain-Jones, S. Feeney, Mrs D. L. King a B. Mellor.

## 11. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth y cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 11.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 42 Ffordd Anwyl, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Tŷ Newydd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** M. Blackwell<br>A. Walker<br>Miss C.L. Williams<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1090<br><br>**DISGRIFIAD:** Adeiladu estyniadau ac gwneud addasiadau i'r annedd<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Rick Stevens<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |

| | |
|---|---|
| 11.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 36 Rhodfa Thornley, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Trellewelyn<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. M. Blakeley-Walker<br>Ms. V. Roberts<br>Sedd wag<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1100<br><br>**DISGRIFIAD**: Dymchwel y garej/adeilad allanol ac adeiladu porth ac estyniad unllawr yn y cefn<br><br>**YMGEISYDD:** Ms Jodie Ingram<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| 11.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 1 Pen y Llys, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Trellewelyn<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. M. Blakeley-Walker<br>Ms. V. Roberts<br>Sedd wag<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1099<br><br>**DISGRIFIAD**: Adeiladu estyniad ar gefn yr annedd a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** Mr a Mrs G Wonnacott<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |

**12. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………...…………

Dyddiad: ………………………...